Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 CHWEFROR 2022**

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Datganiad Ysgrifenedig: Gwella ysgolion a'r dirwedd o ran gwybodaeth - Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor ar gynnwys Datganiad Ysgrifenedig Y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

**2.0 Cefndir**

2.1 Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddwyd canllawiau ar wella ysgolion er mwyn cyflwyno ffordd newydd i'r system addysg gydweithio i gynorthwyo ysgolion wrth wella, magu hyder yn y system, a pharhau i ganolbwyntio'n glir ar gynorthwyo pob dysgwr i symud ymlaen drwy ei addysg.

2.2 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru, a oedd yn cynnig argymhellion ynghylch sut y byddwn yn gwybod bod ein cwricwlwm newydd yn gwella'r broses ddysgu yng Nghymru.

2.3 Ar 19 Ionawr 2023, cyhoeddodd Y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig: 'Gwella ysgolion a'r dirwedd o ran gwybodaeth' oedd yn amlinellu'r camau nesaf o ran datblygu ecosystem/tirwedd data a gwybodaeth newydd. Datganiad Ysgrifenedig: Gwella ysgolion a'r dirwedd o ran gwybodaeth (19 Ionawr 2023)

2.4 Hefyd ar 19 Ionawr 2023, cyhoeddwyd adroddiad 'Datblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd sy'n cefnogi'r system ysgolion ddiwygiedig yng Nghymru' Ymchwil: Archwilio system wybodaeth newydd ar gyfer ysgolion. Mae'r adroddiad yn nodi argymhellion ar gyfer dulliau o ddefnyddio data a gwybodaeth mewn ffordd a fydd yn galluogi partneriaid ar draws y system i weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu potensial, beth bynnag fo'u cefndir.

2.5 Mewn Datganiad gan PAEM Owen Evans ynglŷn â'r cyhoeddiad o 'Datblygu ecosystem data gwybodaeth newydd' gan Lywodraeth Cymru, croesawyd y cynlluniau i ddatblygu ystod ehangach o wybodaeth i gefnogi trefniadau gwell ar gyfer gwerthuso a gwella. Datganiad

gan PAEM Owen Evans ynglŷn â chyhoeddiad heddiw o 'Datblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd' gan Lywodraeth Cymru | Estyn

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gwahanol anghenion gwybodaeth a geir yn y system ac yn cynnig datblygu cyfres ehangach o wybodaeth am feysydd fel llesiant (dysgwyr a staff) a datblygu sgiliau dysgwyr sy'n rhan annatod o'r pedwar diben.

3.2 Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ymarferwyr ledled Cymru i ddatblygu set gyffredin o wybodaeth sy'n gallu helpu i gefnogi'r broses ddysgu drwy ddeall cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr, a'r elfennau sy'n sbarduno'r rhain. Bydd hyn wedi'i lywio gan yr wyth ffactor sy'n cefnogi'r broses o wireddu'r cwricwlwm, a nodir yn y canllawiau ar wella ysgolion. Bydd yn canolbwyntio'n arbennig ar wella'r ddealltwriaeth o gynnydd dysgwyr sydd o dan anfantais. Mae'r Gweinidog Addysg yn awyddus i glywed barn rhieni yn y gwaith hwn, er mwyn deall pa wybodaeth fydd yn ddefnyddiol iddynt.

3.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a phartneriaethau ochr yn ochr â hyn i geisio creu dull cydlynus a chyson ledled Cymru sy'n cefnogi'r broses ddysgu ac sy'n lleihau'r llwyth gwaith i athrawon ac ysgolion. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu i ysgolion yn yr wythnosau nesaf i roi rhagor o fanylion, ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ymhellach wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.